**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 171 (Cy.22)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru ac sy'n dod i rym ar 1 Chwefror 2006, yn rhoi effaith i Erthygl 13d o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC dyddiedig 8 Mai 2000 (OJ Rhif L 169, 10.7.00, t.1), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2005/15/EC dyddiedig 28 Chwefror 2005 (OJ Rhif L 56, 2.3.2005, t. 12), ("y Gyfarwyddeb"), sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau godi ffioedd i gwrdd â'r costau sy'n digwydd oherwydd gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion ar fewnforion planhigion, cynhyrchion planhigion a phethau eraill penodol o drydydd gwledydd y darperir ar eu cyfer yn erthygl 13a(1) o'r Gyfarwyddeb.

Mae'n ofynnol i fewnforiwr dalu'r ffi a bennir yn Atodlen 1 ar gyfer gwiriadau iechyd planhigion a wneir, ac eithrio os yw ffioedd archwilio gostyngol ar fewnforion yn gymwys (rheoliad 4(2) a (3)). Mae Atodlen 2 yn pennu'r ffioedd gostyngol sy'n gymwys, pa un a wneir archwiliad ai peidio, o ran gwiriadau iechyd planhigion ar flodau penodol sydd wedi cael eu torri ac ar ffrwythau penodol sy'n tarddu o wledydd a bennir yn yr Atodlen honno (rheoliad 4(3)).

Mae'n ofynnol i fewnforiwr dalu'r ffi a bennir yn Atodlen 3 ar gyfer gwiriadau dogfennol a gwiriadau adnabod (rheoliad 4(4)).

Cafodd Arfarniad Rheoliadol ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 171 (W.22)

# PLANT HEALTH, WALES

## The Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) Regulations 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply to Wales and come into force on 1 February 2006, give effect to Article 13d of Council Directive 2000/29/EC of 8 May 2000 (OJ No. L 169, 10.7.00, p.1), as last amended by Commission Directive 2005/15/EC of 28 February 2005 (OJ No. L 56, 2.3.2005, p.12), ("the Directive"), which requires member States to charge fees to cover the costs occasioned by the documentary checks, identity checks and plant health checks of certain imports of plants, plant products and other objects from third countries provided for in Article 13a(1) of the Directive.

An importer is required to pay the fee specified in Schedule 1 for plant health checks which are carried out, except where reduced import inspection fees apply (regulation 4(2) and (3)). Schedule 2 specifies reduced fees which apply, whether or not an inspection is in fact carried out, in respect of plant health checks of certain cut flowers and fruits originating in the countries specified in that Schedule (regulation 4(3)).

An importer is required to pay the fee specified in Schedule 3 for documentary checks and identity checks (regulation 4(4)).

A Regulatory Appraisal has been prepared for these Regulations. Copies can be obtained from the Department for Environment, Planning and Countryside, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 171 (Cy.22)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2006

*Wedi'u gwneud* *2006*

*Yn dod i rym* *1 Chwefror 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) a chan adran 29(4) o Deddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**) a chyda chydsyniad y Trysorlys, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC dyddiedig 8 Mai 2000(**3**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2005/15/EC dyddiedig 28 Chwefror 2005(**4**), ar fesurau gwarchod yn erbyn cyflwyno organeddau sy'n niweidiol i blanhigion neu i gynhyrchion planhigion i'r Gymuned ac yn erbyn eu lledaenu o fewn y Gymuned;

ystyr "cynnyrch planhigyn" ("*plant product*") yw'r ystyr sydd i "plant product" yn Erthygl 2(1)(b) o'r Gyfarwyddeb;

ystyr "gwiriad adnabod" ("*identity check*") yw'r ystyr sydd i "identity check" yn erthygl 13a(1)(b)(ii) o'r Gyfarwyddeb;

(**1**) 1973 p. 51.

(**2**) 1998 p. 38.

(**3**) OJ Rhif L 169, 10.7.00, t. 1.

(**4**) OJ Rhif L 56, 2.3.2005, t. 12.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 171 (W.22)

# PLANT HEALTH, WALES

## The Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) Regulations 2006

*Made* *2006*

*Coming into force* *1 February 2006*

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on it by section 56(1) of the Finance Act 1973(**1**) and by section 29(4) of the Government of Wales Act 1998(**2**), with the consent of the Treasury, hereby makes the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Plant Health (Import Inspection Fees) (Wales) Regulations 2006 and come into force on 1 February 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations-

"consignment" ("*llwyth*") has the same meaning as in article 2(1)(p) of the Directive;

"daytime working hours" ("*oriau gwaith yn ystod y dydd*") means any time between the hours of 8.30 a.m. to 5.00 p.m. on any day except a Saturday, Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday under the Banking and Financial Dealings Act 1971(**3**) in Wales;

"the Directive" ("*y Gyfarwyddeb*") means Council Directive 2000/29/EC of 8 May 2000(**4**) on protective measures against the introduction into the Community of organisms harmful to plants or plant products and against their spread within the Community as last amended by Commission

(**1**) 1973 c. 51.

(**2**) 1998 c. 38.

(**3**) 1971 c. 80.

(**4**) OJ No. L 169, 10.7.00, p. 1.

ystyr "gwiriad dogfennol" ("*documentary check*") yw'r ystyr sydd i "documentary check" yn Erthygl 13a(1)(b)(i) o'r Gyfarwyddeb;

ystyr "gwiriad iechyd planhigion" ("*plant health check*") yw'r ystyr sydd i "plant health check" yn erthygl 13a(1)(b)(iii) o'r Gyfarwyddeb;

ystyr "llwyth" ("*consignment*") yw'r ystyr sydd i "consignment" yn erthygl 2(1)(p) o'r Gyfarwyddeb;

ystyr "oriau gwaith yn ystod y dydd" ("*daytime working hours*") yw unrhyw amser rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. ar unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sydd yn wŷl y banc o dan Ddeddf Bancio a Masnachu Ariannol 1971(**1**) yng Nghymru;

ystyr "planhigyn a fwriedir ar gyfer ei blannu" ("*plant intended for planting*") yw'r ystyr sydd i "plant intended for planting" yn erthygl 2(1)(d) o'r Gyfarwyddeb;

ystyr "planhigyn" ("*plant*") yw'r ystyr sydd i "plant" yn erthygl 2(1)(a) o'r Gyfarwyddeb; ac

ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw gwlad neu diriogaeth heblaw un o fewn y Gymuned Ewropeaidd.

**Llwythi y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt**

**3**. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i lwythi o blanhigion, cynhyrchion planhigion a phethau eraill o ddisgrifiad penodedig yng ngholofn gyntaf Atodlen 1 a laniwyd yng Nghymru o drydedd wlad, ac y mae'n ofynnol yn ôl erthygl 13d(1) o'r Gyfarwyddeb i Aelod-wladwriaethau godi ffioedd ffytoiechydol ynglŷn â hwy i gwrdd â'r costau sy'n digwydd oherwydd gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion.

**Ffioedd**

**4**.-(1) Rhaid i fewnforiwr llwyth y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo dalu'r ffioedd a bennir yn y rheoliad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) O ran gwiriad iechyd planhigion a wneir ar unrhyw lwyth o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu bethau eraill ac eithrio llwyth o blanhigion neu gynhyrchion planhigion y mae paragraff (3) yn gymwys iddo-

(a) y ffi a bennir yn nhrydedd golofn Atodlen 1 ar gyfer gwiriad a wneir yn ystod oriau gwaith yn ystod y dydd; neu

(b) y ffi a bennir ym mhedwaredd golofn yr Atodlen honno ar gyfer gwiriad a wneir y tu allan i'r oriau hynny fydd y ffi sy'n daladwy.

(**1**) 1971 p. 80.

Directive 2005/15/EC of 28 February 2005(**1**);

"documentary check" ("*gwiriad dogfennol*") has the same meaning as in article 13a(1)(b)(i) of the Directive;

"identity check" ("*gwiriad adnabod*") has the same meaning as in article 13a(1)(b)(ii) of the Directive;

"plant" ("*planhigyn*") has the same meaning as in article 2(1)(a) of the Directive;

"plant health check" ("*gwiriad iechyd planhigion*") has the same meaning as in article 13a(1)(b)(iii) of the Directive;

"plant intended for planting" ("*planhigyn a fwriedir ar gyfer ei blannu*") has the same meaning as in article 2(1)(d) of the Directive;

"plant product" ("*cynnyrch planhigyn*") has the same meaning as in Article 2(1)(b) of the Directive; and

"third country" ("*trydedd wlad*") means a country or territory other than one within the European Community.

**Consignments to which these Regulations apply**

**3**. These Regulations apply to consignments of plants, plant products and other objects of a description specified in the first column of Schedule 1, landed in Wales from a third country, in respect of which article 13d(1) of the Directive requires member States to charge phytosanitary fees to cover the costs occasioned by documentary checks, identity checks and plant health checks.

**Fees**

**4**.-(1) An importer of a consignment to which these Regulations apply must pay to the National Assembly for Wales the fees specified in this regulation.

(2) In respect of a plant health check carried out on any consignment of plants, plant products or other objects, other than a consignment of a plant or plant product to which paragraph (3) applies, the fee payable must be-

(a) the fee specified in the third column of Schedule 1 in respect of a check carried out during daytime working hours; or

(b) the fee specified in the fourth column of that Schedule in respect of a check carried out outside those hours.

(**1**) OJ No. L 56, 2.3.2005, p. 12.

(3) O ran gwiriad iechyd planhigion a wneir, neu y byddai wedi bod yn ofynnol ei wneud heblaw am Erthygl 13a(2) o'r Gyfarwyddeb (sy'n darparu ar gyfer gwneud gwiriadau o'r fath yn llai aml) ar lwyth o unrhyw blanhigion neu o gynhyrchion planhigion a restrir yng ngholofn gyntaf Atodlen 2 ac sy'n tarddu o wlad a restrir yn nhrydedd golofn yr Atodlen honno, y ffi sy'n daladwy, yn unol ag Erthygl 13d(2) o'r Gyfarwyddeb-

(a) yw'r ffi a bennir ym mhedwaredd golofn Atodlen 2 ar gyfer gwiriad a wneir yn ystod oriau gwaith yn ystod y dydd; a

(b) yw'r ffi a bennir ym mhumed golofn yr Atodlen honno ar gyfer gwiriad a wneir y tu allan i'r oriau hynny.

(4) O ran gwiriad dogfennol neu wiriad adnabod a wneir ar unrhyw lwyth y ffi sy'n daladwy yw'r ffi a bennir ar gyfer y gwiriad hwnnw yn nhrydedd golofn Atodlen 3.

(3) In respect of a plant health check carried out, or which, but for article 13a(2) of the Directive (providing for such checks to be carried out at reduced frequency), would have been required to be carried out, on a consignment of any plant or plant product listed in the first column of Schedule 2 and originating from a country listed in the third column of that Schedule, the fee payable, in accordance with Article 13d(2) of the Directive, must be-

(a) the fee specified in the fourth column of Schedule 2 in respect of a check carried out during daytime working hours; and

(b) the fee specified in the fifth column of that Schedule in respect of a check carried out outside those hours.

(4) In respect of a documentary check or an identity check carried out on any consignment the fee payable must be the fee specified for that check in the third column of Schedule 3.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**)

31 Ionawr 2006

31 January 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

## ATODLEN 1

Rheoliadau 3 a 4(2)

### FFIOEDD AROLYGU MEWNFORIO AR GYFER GWIRIADAU IECHYD PLANHIGION

| *Planhigyn, cynnyrch planhigyn neu beth arall* | *Nifer* | *Ffi (oriau gwaith yn ystod y dydd)* | *Ffi (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd)* |
|---|---|---|---|
| Torion, egin blanhigion (ac eithrio deunydd coedwigaeth atgenhedlol), planhigion mefus neu lysiau ifanc | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 10,000 o nifer | £13.24 | £19.86 |
| | - am bob 1,000 o unedau ychwanegol | £0.52 | £0.78 |
| | - uchafbris | £105.92 | £158.88 |
| Llwyni, coed (ac eithrio coed Nadolig wedi eu torri), planhigion meithrinfa prennaidd eraill yn cynnwys deunydd coedwigaeth atgenhedlol (ac eithrio had) | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 1,000 o nifer | £13.24 | £19.86 |
| | - am bob 100 o unedau ychwanegol | £0.33 | £0.49 |
| | - uchafbris | £105.92 | £158.88 |
| Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron (heblaw cloron tatws) y bwriedir eu plannu | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 200 kg o bwysau | £13.24 | £19.86 |
| | - am bob 10 kg ychwanegol | £0.12 | £0.18 |
| | - uchafbris | £105.92 | £158.88 |
| Hadau, meinweoedd meithrin | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 100 kg o bwysau | £5.67 | £8.50 |
| | - am bob 10 kg ychwanegol | £0.13 | £0.19 |
| | - uchafbris | £105.92 | £158.88 |
| Planhigion eraill y bwriedir eu plannu, ac nas pennir mewn man arall yn yr Atodlen hon | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 5,000 o nifer | £13.24 | £19.86 |
| | - am bob 100 o unedau ychwanegol | £0.13 | £0.19 |
| | - uchafbris | £105.92 | £158.88 |
| Blodau wedi eu torri | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 20,000 o nifer | £13.24 | £19.86 |
| | - am bob 1,000 o unedau ychwanegol | £0.10 | £0.15 |
| | - uchafbris | £105.92 | £158.88 |
| Canghennau gyda deiliant, rhannau o gonifferau (ac eithrio coed Nadolig | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 100 kg o bwysau | £13.24 | £19.86 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| sydd wedi eu torri) | - am bob 100 kg ychwanegol | £1.32 | £1.98 |
| | - uchafbris | £105.92 | £158.88 |
| Coed Nadolig wedi eu torri | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 1,000 o nifer | £13.24 | £19.86 |
| | - am bob 100 o unedau ychwanegol | £1.32 | £1.98 |
| | - uchafbris | £105.92 | £158.88 |
| Dail planhigion, megis perlysiau, sbeisys a llysiau deiliog | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 100 kg o bwysau | £13.24 | £19.86 |
| | - am bob 10 kg ychwanegol | £1.32 | £1.98 |
| | - uchafbris | £105.92 | £158.88 |
| Ffrwythau, llysiau (ac eithrio llysiau deiliog) | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 25,000 kg o bwysau | £13.24 | £19.86 |
| | - am bob 1,000 kg ychwanegol | £0.52 | £0.78 |
| Cloron tatws | Fesul lot | | |
| | - hyd at 25,000 kg o bwysau | £39.72 | £59.58 |
| | - am bob 25,000 kg ychwanegol | £39.72 | £59.58 |
| Pridd a chyfrwng tyfiant, rhisgl | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 25,000 kg o bwysau | £13.24 | £19.86 |
| | - am bob 1,000 kg ychwanegol | £0.52 | £0.78 |
| | - uchafbris | £105.92 | £158.88 |
| Grawn | Fesul llwyth | | |
| | - hyd at 25,000 kg o bwysau | £13.24 | £19.86 |
| | - am bob 1,000 kg ychwanegol | £0.52 | £0.78 |
| | - mwyafswm | £529.60 | £794.40 |
| Planhigion eraill neu gynhyrchion planhigion eraill nas pennir mewn man arall yn yr Atodlen hon, ac eithrio coed coedwigol | Fesul llwyth | £13.24 | £19.86 |

## SCHEDULE 1

Regulations 3 and 4(2)

## IMPORT INSPECTION FEES FOR PLANT HEALTH CHECKS

| *Plant, plant product or other object* | *Quantity* | *Fee (daytime working hours)* | *Fee (non-daytime working hours)* |
|---|---|---|---|
| Cuttings, seedlings (except forestry reproductive material), young plants of strawberries or of vegetables | Per consignment | | |
| | - up to 10,000 in number | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 1,000 units | £0.52 | £0.78 |
| | - maximum price | £105.92 | £158.88 |
| Shrubs, trees (other than cut Christmas trees), other woody nursery plants including forest reproductive material (other than seed) | Per consignment | | |
| | - up to 1,000 in number | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 100 units | £0.33 | £0.49 |
| | - maximum price | £105.92 | £158.88 |
| Bulbs, corms, rhizomes, tubers, intended for planting (other than tubers of potatoes) | Per consignment | | |
| | - up to 200 kg in weight | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 10 kg | £0.12 | £0.18 |
| | - maximum price | £105.92 | £158.88 |
| Seeds, tissue cultures | Per consignment | | |
| | - up to 100 kg in weight | £5.67 | £8.50 |
| | - for each additional 10 kg | £0.13 | £0.19 |
| | - maximum price | £105.92 | £158.88 |
| Other plants intended for planting, not specified elsewhere in this Schedule | Per consignment | | |
| | - up to 5,000 in number | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 100 units | £0.13 | £0.19 |
| | - maximum price | £105.92 | £158.88 |
| Cut flowers | Per consignment | | |
| | - up to 20,000 in number | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 1,000 units | £0.10 | £0.15 |
| | - maximum price | £105.92 | £158.88 |
| Branches with foliage, parts of conifers (other than cut Christmas trees) | Per consignment | | |
| | - up to 100 kg in weight | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 100 kg | £1.32 | £1.98 |
| | - maximum price | £105.92 | £158.88 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cut Christmas trees | Per consignment | | |
| | - up to 1,000 in number | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 100 units | £1.32 | £1.98 |
| | - maximum price | £105.92 | £158.88 |
| Leaves of plants, such as herbs, spices and leafy vegetables | Per consignment | | |
| | - up to 100 kg in weight | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 10 kg | £1.32 | £1.98 |
| | - maximum price | £105.92 | £158.88 |
| Fruits, vegetables (other than leafy vegetables) | Per consignment | | |
| | - up to 25,000 kg in weight | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 1,000 kg | £0.52 | £0.78 |
| Tubers of potatoes | Per lot | | |
| | - up to 25,000 kg in weight | £39.72 | £59.58 |
| | - for each additional 25,000 kg | £39.72 | £59.58 |
| Soil and growing medium, bark | Per consignment | | |
| | - up to 25,000 kg in weight | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 1,000 kg | £0.52 | £0.78 |
| | - maximum price | £105.92 | £158.88 |
| Grain | Per consignment | | |
| | - up to 25,000 kg in weight | £13.24 | £19.86 |
| | - for each additional 1,000 kg | £0.52 | £0.78 |
| | - maximum price | £529.60 | £794.40 |
| Other plants or plant products not specified elsewhere in this Schedule, except forest trees | Per consignment | £13.24 | £19.86 |

## ATODLEN 2

Rheoliad 4(3)

### FFIOEDD AROLYGU MEWNFORIO GOSTYNGOL AR GYFER GWIRIADAU IECHYD PLANHIGION

| *Genws* | *Nifer* | *Gwlad tarddiad* | *Ffi (oriau gwaith yn ystod y dydd)* | *Ffi (oriau gwaith heb fod yn ystod y dydd)* |
|---|---|---|---|---|
| **Blodau wedi eu torri** | | | | |
| Aster | Fesul llwyth | | | |
| | - hyd at 20,000 o nifer | Zimbabwe | £3.31 | £4.96 |
| | - am bob 1,000 o unedau ychwanegol | Zimbabwe | £0.02 | £0.03 |
| | - uchafbris | Zimbabwe | £26.48 | £39.72 |
| Dianthus | Fesul llwyth | | | |
| | - hyd at 20,000 o nifer | Colombia | £0.40 | £0.60 |
| | | Ecuador | £1.98 | £2.97 |
| | | Moroco, Twrci | £3.31 | £4.96 |
| | - am bob 1,000 o unedau ychwanegol | Colombia | £0.003 | £0.004 |
| | | Ecuador | £0.01 | £0.015 |
| | | Moroco, Twrci | £0.02 | £0.03 |
| | - uchafbris | Colombia | £3.17 | £4.75 |
| | | Ecuador | £15.88 | £23.82 |
| | | Moroco, Twrci | £26.48 | £39.72 |
| Rosa | Fesul llwyth | | | |
| | - hyd at 20,000 o nifer | Ecuador, Kenya, Uganda, Zimbabwe | £0.66 | £0.99 |
| | | Colombia | £1.32 | £1.98 |
| | - am bob 1,000 o unedau ychwanegol | Ecuador, Kenya, Uganda, Zimbabwe | £0.005 | £0.007 |
| | | Colombia | £0.01 | £0.015 |
| | - uchafbris | Ecuador, Kenya, Uganda, Zimbabwe | £5.29 | £7.94 |
| | | Colombia | £10.59 | £15.89 |
| **Ffrwythau** | | | | |
| Malus | Fesul llwyth | | | |
| | - hyd at 25,000 kg o bwysau | Chile, De Affrica | £1.32 | £1.98 |
| | | Ariannin, Seland Newydd | £1.98 | £2.97 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Brasil | £3.31 | £4.96 |
| | | Tsieina | £6.62 | £9.93 |
| | - am bob 1,000 kg ychwanegol | Chile, De Affrica | £0.05 | £0.07 |
| | | Ariannin, Seland Newydd | £0.07 | £0.10 |
| | | Brasil | £0.13 | £0.19 |
| | | Tsieina | £0.26 | £0.39 |
| Mangifera | Fesul llwyth | | | |
| | - hyd at 25,000 kg o bwysau | Brasil | £1.32 | £1.98 |
| | | De Affrica | £6.62 | £9.93 |
| | - am bob 1,000 kg ychwanegol | Brasil | £0.05 | £0.07 |
| | | De Affrica | £0.26 | £0.39 |
| Prunus | Fesul llwyth | | | |
| | - hyd at 25,000 kg o bwysau | Chile, De Affrica, Twrci | £1.32 | £1.98 |
| | | Ariannin | £1.98 | £2.97 |
| | - am bob 1,000 kg ychwanegol | Chile, De Affrica, Twrci | £0.05 | £0.07 |
| | | Ariannin | £0.07 | £0.10 |
| Pyrus | Fesul llwyth | | | |
| | - hyd at 25,000 kg o bwysau | De Affrica | £1.32 | £1.98 |
| | | Ariannin | £1.98 | £2.97 |
| | | Chile | £3.31 | £4.96 |
| | | Tsieina | £6.62 | £9.93 |
| | - am bob 1,000 kg ychwanegol | De Affrica | £0.05 | £0.07 |
| | | Ariannin | £0.07 | £0.10 |
| | | Chile | £0.13 | £0.19 |
| | | Tsieina | £0.26 | £0.39 |
| Citrus | Fesul llwyth | | | |
| | - hyd at 25,000 kg o bwysau | Moroco | £0.66 | £0.99 |
| | | Twrci | £0.92 | £1.38 |
| | | UDA | £1.32 | £1.98 |
| | | Israel, Mecsico, Uruguay | £1.98 | £2.97 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| - am bob 1,000 kg ychwanegol | Moroco | £0.02 | £0.03 |
| | Twrci | £0.03 | £0.04 |
| | UDA | £0.05 | £0.07 |
| | Israel, Mecsico, Uruguay | £0.07 | £0.10 |

Os yw cyfanswm unrhyw ffi yn swm o lai na £0.01, ni chynhwysir y swm hwnnw.

## SCHEDULE 2

Regulation 4(3)

### REDUCED IMPORT INSPECTION FEES FOR PLANT HEALTH CHECKS

| *Genus* | *Quantity* | *Country of origin* | *Fee (daytime working hours)* | *Fee (non-daytime working hours)* |
|---|---|---|---|---|
| **Cut flowers** | | | | |
| Aster | Per consignment | | | |
| | - up to 20,000 in number | Zimbabwe | £3.31 | £4.96 |
| | - for each additional 1,000 units | Zimbabwe | £0.02 | £0.03 |
| | - maximum price | Zimbabwe | £26.48 | £39.72 |
| Dianthus | Per consignment | | | |
| | - up to 20,000 in number | Colombia | £0.40 | £0.60 |
| | | Ecuador | £1.98 | £2.97 |
| | | Morocco, Turkey | £3.31 | £4.96 |
| | - for each additional 1,000 units | Colombia | £0.003 | £0.004 |
| | | Ecuador | £0.01 | £0.015 |
| | | Morocco, Turkey | £0.02 | £0.03 |
| | - maximum price | Colombia | £3.17 | £4.75 |
| | | Ecuador | £15.88 | £23.82 |
| | | Morocco, Turkey | £26.48 | £39.72 |
| Rosa | Per consignment | | | |
| | - up to 20,000 in number | Ecuador, Kenya, Uganda, Zimbabwe | £0.66 | £0.99 |
| | | Colombia | £1.32 | £1.98 |
| | - for each additional 1,000 units | Ecuador, Kenya, Uganda, Zimbabwe | £0.005 | £0.007 |
| | | Colombia | £0.01 | £0.015 |
| | - maximum price | Ecuador, Kenya, Uganda, Zimbabwe | £5.29 | £7.94 |
| | | Colombia | £10.59 | £15.89 |
| **Fruit** | | | | |
| Malus | Per consignment | | | |
| | - up to 25,000 kg in weight | Chile, South Africa | £1.32 | £1.98 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Argentina, New Zealand | £1.98 | £2.97 |
| | | Brazil | £3.31 | £4.96 |
| | | China | £6.62 | £9.93 |
| | - for each additional 1,000 kg | Chile, South Africa | £0.05 | £0.07 |
| | | Argentina, New Zealand | £0.07 | £0.10 |
| | | Brazil | £0.13 | £0.19 |
| | | China | £0.26 | £0.39 |
| Mangifera | Per consignment | | | |
| | - up to 25,000 kg in weight | Brazil | £1.32 | £1.98 |
| | | South Africa | £6.62 | £9.93 |
| | - for each additional 1,000 kg | Brazil | £0.05 | £0.07 |
| | | South Africa | £0.26 | £0.39 |
| Prunus | Per consignment | | | |
| | - up to 25,000 kg in weight | Chile, South Africa, Turkey | £1.32 | £1.98 |
| | | Argentina | £1.98 | £2.97 |
| | - for each additional 1,000 kg | Chile, South Africa, Turkey | £0.05 | £0.07 |
| | | Argentina | £0.07 | £0.10 |
| Pyrus | Per consignment | | | |
| | - up to 25,000 kg in weight | South Africa | £1.32 | £1.98 |
| | | Argentina | £1.98 | £2.97 |
| | | Chile | £3.31 | £4.96 |
| | | China | £6.62 | £9.93 |
| | - for each additional 1,000 kg | South Africa | £0.05 | £0.07 |
| | | Argentina | £0.07 | £0.10 |
| | | Chile | £0.13 | £0.19 |
| | | China | £0.26 | £0.39 |
| Citrus | Per consignment | | | |
| | - up to 25,000 kg in weight | Morocco | £0.66 | £0.99 |
| | | Turkey | £0.92 | £1.38 |
| | | USA | £1.32 | £1.98 |
| | | Israel, Mexico, Uruguay | £1.98 | £2.97 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| - for each additional 1,000 kg | Morocco | £0.02 | £0.03 |
| | Turkey | £0.03 | £0.04 |
| | USA | £0.05 | £0.07 |
| | Israel, Mexico, Uruguay | £0.07 | £0.10 |

Where the total amount of any fee comprises an amount of less than £0.01, that amount shall be excluded.

## ATODLEN 3

Rheoliad(4)(4)

### FFIOEDD AROLYGU MEWNFORIO AR GYFER GWIRIADAU DOGFENNOL A GWIRIADAU ADNABOD

| *Dull gwirio* | *Nifer* | *Ffi* |
|---|---|---|
| Gwiriad Dogfennol | Fesul llwyth | £5.29 |
| Gwiriad adnabod | Fesul llwyth | |
| | - hyd at faintioli llwyth tryc, llwyth wagen reilffordd neu lwyth cynhwysydd o faintioli cyffelyb | £5.29 |
| | - mwy na'r maintioli uchod | £10.58 |

SCHEDULE 3

Regulation 4(4)

IMPORT INSPECTION FEES FOR DOCUMENTARY CHECKS AND IDENTITY CHECKS

| *Check* | *Quantity* | *Fee* |
|---|---|---|
| Documentary check | Per consignment | £5.29 |
| Identity check | Per consignment | |
| | - up to a size of a truck load, a railway wagon load or the load of a container of comparable size | £5.29 |
| | - bigger than the above size | £10.58 |

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W242/02/06 ON